OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2013 Rhif 2006 (Cy. 197) (C. 85)

# HARBYRAU PYSGODFEYDD, CYMRU

## Gorchymyn Deddf Mordwyaeth 2013 (Cychwyn) (Cymru) 2013

*Gwnaed - - - - 1 Awst 2013*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adran 13(2) a (4) o Ddeddf Mordwyaeth 2013(**1**).

### Enwi a dehongli

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf Mordwyaeth 2013 (Cychwyn) (Cymru) 2013.

(2) Yn y Gorchymyn hwn, ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Mordwyaeth 2013.

### Y diwrnod penodedig

**2.** 1 Hydref 2013 yw'r diwrnod penodedig ar gyfer dwyn i rym adrannau 5 a 6 o'r Ddeddf mewn perthynas â harbyrau pysgodfeydd yng Nghymru.

*Alun Davies*
Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd, un o Weinidogion Cymru

11 Awst 2013

(**1**) 2013 p.23.

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn dwyn adrannau 5 a 6 o Ddeddf Mordwyaeth 2013 (p.23) ("Deddf 2013") i rym mewn perthynas â harbyrau pysgodfeydd yng Nghymru.

Mae adran 5 o Ddeddf 2013 yn mewnosod adrannau 40A i 40D newydd i Ddeddf Harbyrau 1964 (p.40) ("Deddf 1964"). Mae adran 40A o Ddeddf 1964 yn galluogi awdurdod harbwr dynodedig i wneud cyfarwyddiadau harbwr. Mae adran 40B o Ddeddf 1964 yn pennu'r weithdrefn sy'n gymwys mewn cysylltiad â gwneud cyfarwyddiadau harbwr. Mae adran 40C o Ddeddf 1964 yn darparu ar gyfer gorfodi cyfarwyddiadau harbwr ac mae adran 40D o Ddeddf 1964 yn gwneud darpariaethau atodol mewn cysylltiad â chyfarwyddiadau harbwr.

Mae adran 6 o Ddeddf 2013 yn mewnosod adrannau 17A i 17F newydd i Ddeddf 1964. Mae adran 17A o Ddeddf 1964 yn galluogi'r Ysgrifennydd Gwladol i wneud gorchymyn cau harbwr. Mae adran 17B yn gwneud darpariaeth ynglŷn â chynnwys gorchmynion cau harbwr ac mae adran 17C yn darparu y caiff gorchmynion cau harbwr drosglwyddo eiddo, hawliau a rhwymedigaethau'r awdurdod harbwr perthnasol. Mae adran 17D yn pennu'r weithdrefn sy'n gymwys mewn cysylltiad â gwneud gorchmynion cau. Mae adran 17E yn ymdrin â datganoli ac yn darparu, mewn perthynas â harbyrau pysgodfeydd yng Nghymru, mai Gweinidogion Cymru sydd â'r pŵer i wneud gorchmynion cau harbwr. Mae adran 17F o Ddeddf 1964 yn gwneud darpariaethau atodol mewn cysylltiad â gorchmynion cau harbwr.

## NODYN YNGHYLCH GORCHMYNION CYCHWYN CYNHARACH

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r darpariaethau canlynol yn Neddf Mordwyaeth 2013 wedi eu dwyn i rym, neu byddant yn cael eu dwyn i rym, i'r graddau a ddarperir isod, ar y Dyddiadau Cychwyn a bennir, gan Orchymyn Deddf Mordwyaeth 2013 (Cychwyn) 2013 (O.S. 2013/1489 (C. 59)).

| *Y Ddarpariaeth* | *Y Dyddiad Cychwyn* |
|---|---|
| adrannau 1 i 4 (mewn perthynas â Chymru a Lloegr) | 1 Hydref 2013 |
| adrannau 5 a 6 (mewn perthynas â Chymru a Lloegr ac eithrio mewn perthynas â harbyrau pysgodfeydd yng Nghymru) | 1 Hydref 2013 |
| adran 7 (mewn perthynas â Chymru a Lloegr) | 26 Mehefin 2013 |
| adrannau 8 i 11 (mewn perthynas â Chymru, Lloegr, Yr Alban a Gogledd Iwerddon) | 26 Mehefin 2013 |